

Yn y Rhifyn Hwn:

- Diwrnod y Llyfr
- Mis Hanes LGBTQ+
- Adolygiad o 'Tu ôl i'r Awyr'
- Amser Stori Rhithiol
- Myfyrio ar Ddydd Gŵyl Dewi


Ein Dathliadau ar Ddiwrnod y Llyfr!

Roedd hi'n 'Ddiwrnod y Llyfr' ar Fawrth y 4ydd, sef dathliad blynyddol o lyfrau a darllen! Mae tocynnau llyfr am ddim yn dal i fod ar gael drwy wasanaeth 'Galw a Chasglu' ein llyfrgelloedd, ac yn ddilys tan 28 Mawrth.



Argymhelliad ein Darllenwyr – Tu ôl i'r Awyr!


Diolch i Hannah am ei hadolygiad!



'Tu ôl i'r Awyr' gan Megan Angharad Hunter

Nofel newydd cyffrous yw hon gan un o'n hawduron ifanc mwyaf addawol. Mae'r nofel yn adrodd stori Anest a Deian, dau aelod o'r chweched ddsbarth sydd yn canfod cysur yng ngharedigrwydd y llall yn ystod cyfnodau anodd yn eu bywydau. Yr elfen fwyaf cofiadwy o 'Tu ôl i'r Awyr' yw'r defnydd crefftus o safbwyntiau, wrth i'r awdur gadarnhau'r gwahaniaethau mawr rhwng y prif gymeriadau yn ei arddulliau cyferbyniol wrth ysgrifennu'r ddau lais. Rwy'n sicr fydd Cymry ifanc heddiw yn gweld eu hunain yn stori Anest a Deian, ac yn gwerthfawrogi triniaeth Hunter o rwystredigaethau cyffredinol pobl ifanc, yn ogystal â'i empathi amlwg tuag at dopigau sensitif (a phwsig) iechyd meddwl a cholled.

Llyfr y Mis



AR GAEL RWAN

Ymweliadau Rhithiol gan Staff y Llyfrgell i Wylio a Rhannu!

Cliciwch y fideo isod i wylio ein cân a'n stori Pasg!



MIS HANES LGBTQ+

Mae mis Chwefror yn fis hanes LGBTQ+ ac rydym yn dathlu yma yn Llyfrgelloedd Conwy gyda'n cyfoeth o lyfrau ardderchog! (a sanau arbennig hefyd!)

Ymgollwch mewn llyfr yn arbennig i chi – o ffuglen a ffeithioli i nofelau graffig! Bydd awgrymiadau yn cael eu cynnig drwy'r mis...



ymlacio **read**
dysgu explore
darllen **learn**



Creu Cennin Pedr!

Cliciwch ar y llun isod i wyllo tiwtorial crefft cennin Pedr gwyh llyfrgell Llanrwst...



PETHAU I GADW LLYGAD AMDANYNT...

- Wythnos Shakespeare - Mawrth 15fed i'r 21ain
- Ein hamseroedd stori ddigidol
- Hwyl yr Pasg!

Myfyrio ar ein Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi!

Creodd llyfrgell Llanrwst arddangosfa hyfryd yn y ffenestr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni, gan ddod â gwên i wyneb pawb a ddaeth i gasglu eu llyfrau.

Roedd yn arddangosfa llawn amrywiaeth, o nofelau i lyfrau coginio a phopeth yn y canol.

Fe welwch chi isod rai o bigion y staff sydd ar gael i'w benthyca neu eu cadw o Lyfrgelloedd Conwy!

